

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU
Deddf Safonau a Threfniadaeth
Ysgolion (Cymru) 2013

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 & 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig:

- **O'r 31ain Awst, 2016, terfynu Ysgol Maelgwn, Broad Street, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9HG**
- **O'r 31ain Awst, 2016, terfynu Ysgol Nant y Coed, Ronald Avenue, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9EU**
- **O'r 1af medi, 2016, sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol dwy ffrwd newydd i fechgyn a genethod 3 i 11 oed i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("Yr Ysgol Newydd") a fydd yn gweithredu fel un ysgol gynradd ar ddwy safle yn Broad St, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9HG a Ronald Avenue, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9EU (sef safleoedd presennol Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed)**

Bydd yr Ysgol Newydd wedyn yn symud i adeilad newydd sy'n cael ei adeiladu yn Esgyryn, Cyffordd Llandudno, pan fydd yr adeilad newydd yn barod i'w feddiannu.

Bydd disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed a'r rheiny a gaiff eu derbyn ar gyfer y flwyddyn addysgol 2016-17 yn gallu mynychu yr Ysgol Newydd o Fedi, 2016.

Bydd disgyblion a fydd yn mynychu Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2 ym Medi, 2016 yn cael eu derbyn i'r Ysgol Newydd ar safle Ronald Avenue, Cyffordd Llandudno hyd nes bydd yr adeilad newydd ar gael i'w feddiannu.

Bydd disgyblion fydd yn mynychu

Conwy County Borough Council
Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU
School Standards and Organisation
(Wales) Act 2013

Notice is hereby given in accordance with Section 41 & 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Conwy County Borough Council, having consulted such persons as required, propose to:

- **From 31 August 2016, to discontinue Ysgol Maelgwn, Broad Street, Llandudno Junction, Conwy, LL31 9HG**
- **From 31 August 2016, to discontinue Ysgol Nant y Coed, Ronald Avenue, Llandudno Junction, Conwy, LL31 9EU**
- **From 1 September, 2016 establish a new Dual Stream Community Primary School for boys and girls aged 3 to 11 years old to be maintained by Conwy County Borough Council ("The New School") which will operate as a single primary school on two sites at Broad Street, Llandudno Junction, Conwy LL31 9HG and Ronald Avenue, Llandudno Junction, Conwy LL31 9EU (which are the current sites of Ysgol Maelgwn and Ysgol Nant y Coed)**

The New School will then relocate to a new building to be constructed at Esgyryn, Llandudno Junction, at such time as the new building is ready for occupation.

Pupils currently attending Ysgol Maelgwn and Ysgol Nant y Coed and those admitted for the 2016-17 school year will be able to attend the New School from 1 September 2016.

Pupils attending reception and Year 1 and 2 in September, 2016 will be admitted to the New School at the Ronald Avenue, Llandudno Junction site until such time as the new building is ready for occupation.

Pupils attending Nursery provision and

darpariaeth Meithrin a blynyddoedd 3 i 6 ym Medi, 2016 yn cael eu derbyn i'r Ysgol Newydd ar safle Broad Street, Cyffordd Llandudno hyd nes bydd yr adeilad newydd ar gael i'w feddiannu.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd â hwy, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

<http://www.conwy.gov.uk/cyfforddllandudno>

Bydd dalgylchoedd presennol Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed yn cyfuno i lunio un dalgylch newydd ar gyfer yr Ysgol Newydd.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr Ysgol Newydd.

Y rhif derbyn cyhoeddedig arfaethedig ar gyfer yr Ysgol Newydd tra y bydd wedi ei lleoli ar ddau safle fydd 59. Y rhif derbyn ar gyfer yr Ysgol Newydd pan fydd yn symud i'r safle newydd fydd 62. Bydd lle i 30 yn y Meithrin.

Capasiti'r Ysgol Newydd fydd 417 yn cynnwys 417 ar safle Ronald Avenue a 228 ar safle Broad Street hyd nes bydd yr adeilad newydd yn barod i'w feddiannu. Capasiti disgyblion yn yr adeilad newydd fydd 432.

Bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Bydd categori iaith yr Ysgol Newydd arfaethedig, fel y diffinnir gan "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" Dogfen Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru rhif 023/2007 fel â ganlyn:-

Years 3 to 6 in September, 2016 will be admitted to the New School at the Broad Street, Llandudno Junction site until such time as the new building is ready for occupation.

Conwy County Borough Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposers' responses and the views of Estyn is available on the Conwy County Borough Council, Education Services website:

www.conwy.gov.uk/llandudnojunctionarea

The current catchment areas for Ysgol Maelgwn and Ysgol Nant y Coed will join to create one new catchment area for the New School.

Conwy County Borough Council will be the Admission Authority for the New School.

The proposed published Admission Number for the New School whilst it is located on two sites will be 59. The admission number for the New School when it moves to its new site will be 62. The Nursery will have a capacity of 30.

The New School's pupil capacity will be 417 including 189 on the Ronald Avenue site and 228 on the Broad Street site until such time as the new building is ready for occupation. The New School's pupil capacity in the new building will be 432.

Home to School Transport will only be provided in accordance with Conwy County Borough Council's Home to School Transport Policy.

The language category of the proposed New School, as defined by "Defining Schools according to Welsh medium provision" Welsh Assembly Government Information Document No 023/2007 will be as follows:-

Categori 2 – Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 27ain Gorffennaf 2016.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Richard Ellis Owen, Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Gwasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL neu e-bost School.Modernisation@conwy.gov.uk

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyhoeddi crynhoad o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed o fewn y cyfnod gwrthwynebu (a sydd ddim wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â sylwadau'r Cyngor arnynt, o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.



Richard Ellis Owen
Pennaeth Statudol Gwasanaethau
Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad – 29ain Mehefin 2016

Nodyn Esboniadol

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond caiff ei gynnig fel eglurhad)

1. Mae Cyngor yn cynnig cyfuno Ysgol Maelgwn a Ysgol Nant y Coed. Bydd hyn yn golygu cau'r ddwy ysgol ar 31ain Awst 2016 a'r ysgol gyfunedig newydd yn agor ar 1 Medi 2016.
2. Bydd yr ysgol ar y cychwyn yn gweithredu o safleoedd presennol Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed hyd nes y bydd yr adeilad ysgol newydd ar safle Esgyryn ar gael i'w feddiannu.
3. Nodwyd y rhesymau dros y cynnig hwn yn y Ddogfen Ymgynghori a

Category 2 – Dual Stream Primary School

Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by 27th July, 2016 any person may object to the proposal.

Objections should be sent in writing to Richard Ellis Owen, Head of Education (Chief Education Officer), Education Department, Government Buildings, Dinerth Road, Colwyn Bay LL28 4UL or by email to School.Modernisation@conwy.gov.uk

Conwy County Borough Council will publish a summary of any such objections made within the objection period (and not withdrawn in writing), together with the Council's observations thereon, within a period of 28 days after the end of the objection period.



Richard Ellis Owen
Head of Education
Services
Conwy County Borough
Council

Date – 29th June, 2016

Explanatory Note

(The Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)

1. The Council is proposing to amalgamate Ysgol Maelgwn and Ysgol Nant y Coed. This will result in the closure of both schools as of the 31st of August 2016 and the amalgamated school opening on the 1st September 2016.
2. The school will initially operate from the sites of the current Ysgol Maelgwn and Ysgol Nant y Coed until such a time as the new school building on the Esgyryn site is available for occupation.
3. The reasons for this proposal were set

ddosbarthwyd 11eg Mai, 2016.

4. Mae Gwasanaethau Addysg Conwy wedi adolygu nifer y disgyblion, cydraddoldeb mynediad at adnoddau ar gyfer disgyblion, safonau addysgol ac addasrwydd i bwrpas adeiladau ysgol presennol ar draws yr Awdurdod.
5. Mae copi o Bolisi Derbyniadau a Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdesitref Sirol Conwy ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd unrhyw drefniadau a allai gael eu gwneud i ddisgyblion fynychu safle gwahanol o ganlyniad i'r trefniadau dysgu dros-dro (tra'n disgwyl ail-leoli i'r adeilad newydd) tu allan i gwmpas Polisi Cludiant Ysgol y Cyngor.
6. Mae'r rhybudd hwn yn nodi cychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o **29ain Mehefin hyd 27ain Gorffennaf 2016** ac yn nodi'r cyfeiriad ble gellir anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig.
7. Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynnig hwn ar www.conwy.gov.uk/CyfforddIllandudn
o

out in the Consultation Document published 11th May, 2016.

4. Conwy County Borough Council has been reviewing current pupil numbers, equality of funding for pupils and the fitness for purpose of current school buildings across the Authority.
5. A copy of the Conwy County Borough Council's School Admissions Policy and Home to School Transport Policy are available on the County's website. Any additional transport arrangements that may be made for pupils to attend a different site as a result of the temporary teaching arrangements (pending re-locating to the new build) will be outside the scope of the Council's School Transport Policy.
6. This notice marks the start of a 28 day Objection Period from **29th June to 27th July 2016** and sets out the address to which objections in writing may be submitted.
7. All documentation relating to this proposal can be found at www.conwy.gov.uk/Llandudnojunctionarea